# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWYD O BELL DROS ZOOM

## NOS LUN, Y 7FED O FAWRTH 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

| | | |
|---|---|---|
| Presennol: Cadeirydd: | | H Hughes |
| | | C Bainbridge |
| | | R Dalton |
| | | M Griffiths |
| | | G B Jones |
| | | A J Morris |
| | | D Pryce Jones |
| Yn bresennol: | Clerc: | M Walker |
| | | 5 aelod o'r cyhoedd. |

**YMDDIHEURIADAU**

324. Y Cynghorwyr J James, A Thomas, D Tweedy a Ray Quant.

**Y DIWEDDARAF GAN BROADWAY PARTNERS AM GYFLWYNO BAND EANG**

325. Estynnodd y Cynghorydd Hughes groeso i Reece Simmons a ymunodd â'r cyfarfod ar ran Broadway Partners i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau. Mae'r cwmni'n cydweithio â chymunedau yng Ngheredigion a siroedd eraill i ddarparu band eang cyflym. Esboniodd Rees faint o amser y gallai ei gymryd i gysylltu â band eang cyflym a beth fyddai'r gost bob mis. Anogodd bobl i gofrestru i fod yn rhan o'r cynllun.

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

326. Mae Ms Naomi Salmon yn pryderu nad yw'r gwaith i ailbroffilio'r traeth wedi gwneud gwahaniaeth o gwbl i'r ardal gyferbyn â'r Siop Premier. Mae Ms Salmon yn honni bod y risg yn uwch erbyn hyn, nid yn is.
O fod wedi gwrando ar ragolygon y tywydd ar gyfer penwythnos y 12fed/13eg o Fawrth, dywedodd Mr James Davies y gallai'r môr orlifo, a dywedodd fod y modelu cyfrifiadurol cynnar yn ategu hyn.

**DATGAN BUDDIANNAU**

327. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod. Datganodd y Cynghorydd Hughes ei fod yn un o ymddiriedolwyr Hwb Cymunedol y Borth.

**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**

328. Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd o bell ar yr 8fed o Chwefror yn gywir ar yr amod bod Cofnod 316 yn cael ei newid. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Jones a'r eilydd oedd y Cynghorydd Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Mae'r gwelliant a baratowyd gan y Cynghorydd Hughes yn darllen fel a ganlyn: Anfonwyd e-bost oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, a oedd yn ymateb i'r llythyr ynghylch effaith Storm Barra ar yr amddiffynfeydd arfordirol ac ar gymuned y Borth, at bob cynghorydd cyn y cyfarfod. Trafododd y Cyngor yr ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion a chodwyd pryderon, yn eu plith y dylai Cyngor Cymuned y Borth fod yn ymwneud yn uniongyrchol â monitro'r banc cerrig mân ac y dylai Cyngor Sir Ceredigion ddyrannu cyllideb cynnal a chadw arfordirol flynyddol yn benodol ar gyfer y Borth. Cynigiwyd bod y Cynghorwyr Hughes a Morris yn ymateb i Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion yn sgil ei ateb yntau i'w llythyr blaenorol. Esboniodd y Cynghorydd Quant mai Canolfan Monitro Arfordirol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro'r banc cerrig mân bob blwyddyn, ac nad oes gan y Cyngor Sir lawer o arian i gynnal a chadw amddiffynfeydd ar hyd arfordir Ceredigion gyfan.

**MATERION YN CODI**

329. Dim.

**GOHEBIAETH**

330. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Derbyniwyd gohebiaeth arall nad oedd angen gweithredu arni gan Drefi Smart, Gwrandawiadau Cyhoeddus Comisiwn Ffiniau i Gymru, Cloudy IT sy'n ymwneud â datgloi manteision Microsoft 365, Cylchlythyr Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, manylion gweminar sy'n cael ei rhedeg gan Gallaghers Insurance a Clerk & Councils Direct.

331. Hwb Cymunedol y Borth. Cais gan Helen Williams i ddiweddaru'r Cyngor yng nghyfarfod mis Ebrill. Cododd yr Hwb bron i £300 yn y Caffi Cymunedol ddydd Gwener, y 4ydd o Fawrth, a bydd ar agor eto ddydd Mawrth, yr 8fed o Fawrth ac ar ddydd Gwener, yr 11eg o Fawrth. Bydd yr holl arian yn mynd tuag at Apêl Wcráin y Groes Goch.

332. Y Morglawdd yn Ynyslas. Copi o lythyr a anfonwyd at Gyngor Sir Ceredigion sy'n ymwneud â'r difrod pellach i'r morglawdd yn Ynyslas yn dilyn stormydd diweddar, a'r ateb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion.

333. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Gan gychwyn ar y 9fed o Fai, 2022, rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned sicrhau bod taliad o £150 ar gael i bob aelod bob blwyddyn fel cyfraniad at gostau a threuliau. Mae'r taliad yn orfodol oni bai bod Aelod yn hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno gwrthod y taliad.

334. Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Y dyfarniadau cyflog newydd a fydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2021/22.

**CYFRIFON**

335. Gweddill y cyfrifon ar y 14eg o Chwefror 2022

| | |
|---|---|
| Nationwide | 30229.71 |
| Cyfrif Banc Elusennol | 9261.21 |
| Cyfrif Busnes Dim Rhybudd | 17560.94 |
| Cyfrif Adnau | 3829.37 |

336. Incwm

| | |
|---|---|
| Scottish Power – Fforddfreintiau | 34.51 |
| Trosglwyddo arian i'r cyfrif adnau o'r cyfrif elusennol | 80.00 |

337. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu’r canlynol:

| | |
|---|---|
| Trosglwyddo arian i'r cyfrif adnau o'r cyfrif elusennol | 80.00 |
| Cyngor Sir Ceredigion – glanhau’r toiledau ger y traeth | 5035.36 |
| Redlynch Leisure Installations Ltd | 23760.00 |
| Un Llais Cymru – tâl aelodaeth | 288.00 |
| M Walker – cyflog | 522.00 |
| Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Chwefror | 77.00 |
| L A Griffiths – 2 x faner cŵn | 336.00 |
| Mynwent Capel y Garn -rhodd ariannol | 250.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru-rhodd ariannol | 250.00 |
| Y Tincer-rhodd ariannol | 250.00 |
| Cyngor ar Bopeth-rhodd ariannol | 250.00 |
| CommuniCorp – 72 o fygiau’r Jiwbilî | 527.23 |
| Taliadau’r Cyfrif Banc Elusennol – Mis Chwefror | 6.60 |

Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

**CYNLLUNIO**

338. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

Ni ddaeth dim ceisiadau cynllunio i law.

**AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD**

339. Dywedodd y Cynghorydd Hughes nad oedd eto wedi cael ateb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i'r llythyr a anfonodd ar y 15fed o Chwefror. Mae'n cydnabod fod problem yn ôl pob golwg rhwng diwedd Cam 1 a dechrau Cam 2. Dywedodd y Cynghorydd Hughes ei fod yn bwriadu anfon llythyr dilynol at Gyngor Sir Ceredigion os na fydd wedi cael ateb o fewn 28 diwrnod.

**ARWYDDION AR Y PROMENÂD**

340. Awgrymodd y Cynghorydd Hughes y dylid prynu stensiliau "glanhewch ar ôl eich ci" ac y dylid chwistrellu'r palmentydd. Cysylltwyd â'r Clwb Ieuenctid ac maent yn hapus i wneud y gwaith. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes y dylid cyfrannu £150 tuag at brynu stensiliau a phaent. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Bainbridge a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

**CYFARFOD i ADOLYGU YSWIRIANT Y CYNGOR**

341. Bu'r Cynghorwyr Hughes, Morris, Jones a Pryce Jones, ynghyd â'r Cynghorydd Sir Quant a'r Clerc, yn bresennol mewn cyfarfod diweddar i adolygu polisi Yswiriant y Cyngor. Nid yw'r wal dan sylw wedi'i hyswirio o dan y polisi, a chytunwyd i wneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ceredigion ac yna anfon llythyr at y cyfreithiwr yn gofyn iddo gynnal chwiliad tir. Mae'r mater yn parhau.

**LLE GWAG AR Y CYNGOR.**

342. Mae dau gais wedi dod i law'r Cyngor i lenwi'r lle wag. Mewn sefyllfa arferol, byddai'r Aelodau'n pleidleisio yng nghyfarfod mis Mawrth a byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei hysbysu a'i gyfethol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill. Gan fod etholiad ym mis Mai, dim ond am fis y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn aelod o Gyngor Cymuned y Borth. Mae'r Clerc wedi cael cyngor ac awgrymwyd nad yw'r Cyngor yn cyfethol neb ar hyn o bryd ac y dylai ddweud wrth y ddau ymgeisydd y gallent roi eu henwau gerbron ar gyfer etholiadau'r Cyngor Cymuned ym mis Mai. Mae'r Clerc wedi anfon y ffurflenni enwebu a chyfeiriadau cartref at bob cynghorydd. Dywedodd y Cynghorydd Dalton y byddai'n cydlynu'r gwaith i ddosbarthu copïau caled pe bai angen.

**Y WAL GYFERBYN Â SIOPAU PREMIER**

343. Mae'r Cynghorydd Quant wedi bod yn gohebu â Chyngor Sir Ceredigion i holi pwy sy'n berchen ar y darn hwnnw o dir rhwng y slabiau palmant a'r fainc gyntaf hyd at, ac yn cynnwys, y bloc toiledau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ofyn i gyfreithwyr y Cyngor wneud ymholiadau â'r Gofrestrfa Tir.

**Ceisiadau am roddion ariannol**

344. Ystyriwyd yr holl geisiadau am roddion ariannol gan wahanol fudiadau a chynhigiodd y Cyng. Jones y dylid cyfrannu tuag at y mudiadau canlynol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. James. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

| | |
|---|---|
| Mynwent Capel y Garn | £250.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £250.00 |
| Y Tincer | £250.00 |
| Cyngor ar Bopeth | £250.00 |

**Y DIWEDDARAF AM BORTH 2030**

345. Cafwyd diweddariad gan Mrs Andrea Hughes ynglŷn â Borth 2030 a gofynnodd i Gyngor Cymuned y Borth gydnabod Borth 2030 fel grŵp sy'n gefnogol o'r Cyngor. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes fod Cyngor Cymuned y Borth yn cydnabod Borth 2030 fel corff a allai wneud cyfraniad defnyddiol i'r Cyngor, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jones.

**CYFARFODYDD WYNEB YN WYNEB**

346. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hughes fod yr holl offer ar gyfer cyfarfodydd hybrid wedi'u harchebu ac mai ei fwriad yw cynnal y cyfarfod nesaf yn y Neuadd Gymunedol.

**MATERION Y CADEIRYDD**

347. Nid oedd dim i'w adrodd yn ychwanegol at yr hyn a drafodwyd eisoes.

**CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR**

348. Gofynnodd y Cynghorydd Dalton am lofnodwyr ychwanegol ar gyfer y Cyfrif Nationwide ar ôl i ddau enw gael eu dileu. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Pryce Jones a'r Cynghorydd Hughes i ychwanegu eu henwau at y rhestr.
Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Bainbridge ynglŷn â'r offer newydd a osodwyd yn y maes chwarae. Mae hi ar hyn o bryd yn gofyn am brisiau ar gyfer y meinciau newydd. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Clerc archebu'r mygiau'r Jiwbilî a dywedodd y byddai'n dechrau llunio rhestr o'r holl blant 11 oed ac iau a fyddai'n gymwys i gael un o'r mygiau coffa hyn.
Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Jones am gyfarfod diweddaraf y Grŵp Iechyd.

**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

349. Nid oedd dim i'w adrodd yn absenoldeb y Cynghorydd Sir, Ray Quant.

**Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA**

350. Gan nad oedd rhagor o faterion i’w trafod, daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben am 21.49pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Llun, y 4ydd o Ebrill 2022 fydd y diweddaraf am Hwb Cymunedol y Borth, Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Promenâd, Jiwbilî Platinwm y Frenhines a'r Wal gyferbyn â Siop Premier. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda.